

SIBLY, Syr THOMAS FRANKLIN (1883 - 1948), daearegwr, gweinyddwr prifysgol

Enw: Thomas Franklin Sibly
Dyddiad geni: 1883
Dyddiad marw: 1948
Priod: Maude Evelyn Sibly (née Barfoot)
Rhiant: Virginia Sibly (née Tonkin)
Rhiant: Thomas Dix Sibly
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: daearegwr, gweinyddwr prifysgol
Maes gweithgaredd: Addysg; Natur ac Amaethyddiaeth; Gwyddoniaeth a Mathemateg
Awdur: Brynley Francis Roberts

Ganwyd 25 Hydref 1883 ym Mryste yn fab Thomas Dix Sibly a'i wraig Virginia (ganwyd Tonkin). Addysgwyd ef yn Wycliffe College, Stonehouse, St. Dunstan's, Burnham-on-sea, a Choleg Prifysgol Bryste lle y graddiodd yn y dosbarth cyntaf (Prifysgol Llundain) mewn ffiseg arbrofol yn 1903. Troes at ddaeareg ym Mhrifysgol Birmingham a bu'n Ysgolor Ymchwil ym Mryste 1905-07; graddiodd D.Sc. Llundain 1908. Bu'n ddarlithydd mewn daeareg (â gofal yr adran) yn King's College, Llundain, 1908-13, ac yn Athro Daeareg C.P.D.C., Caerdydd 1913-1918, ac yn Athro Daeareg Coleg Armstrong, Newcastle-upon-Tyne (Prifysgol Durham) 1918-1920. Penodwyd ef yn Brifathro cyntaf Coleg Prifysgol Abertawe yn 1920 a bu'n allweddol mewn gosod y sefydliad newydd ar sylfeini cadarn. Yr oedd yn arweinydd cadarn a chryf, yn ddadleuwr grymus ac yn weinyddwr o'r radd flaenaf. Dywedir mai ef a sicraodd na fu gan y coleg newydd unrhyw gymhlethdod israddol yn ei berthynas â cholegau hŷn y Brifysgol o'r dechrau cyntaf. Yn 1926 penodwyd ef yn Brif Swyddog Prifysgol Llundain, teitl a newidiwyd ar ei benodiad ef i Brifathro, a daeth yn Isganghellor Prifysgol Reading 1929-1946 lle y gwnaeth lawer i hybu datblygiad y brifysgol ieuanc honno. Yr oedd yn flaenllaw ym myd prifysgolion Prydain a'i ddoniau negydu yn sicrhau swyddi iddo megis Cadeirydd Pwyllgor yr Isganghellorion a Phrifathrawon (C.V.C.P.) 1938-43, Cadeirydd gweithredol Bureau Prifysgol yr Ymerodraeth Brydeinig, a bu'n aelod o Gyngor Ymgynghorol yr Adran Ymchwil Wyddonol a Diwydiannol, ac o'r Comisiwn Brenhinol ar Brifysgol Durham. Rhwng 1905 ac 1937 cyhoeddodd gyfres o erthyglau ar galchfeini carbonifferaidd. Bu'n aelod o'r Arolwg Ddaearegol 1917-18, ac yn Gadeirydd Bwrdd yr Arolwg Ddaearegol 1930-43. Gwnaed ef yn farchog yn 1938, a derbyniodd raddau D.Sc. Bryste, LL.D. er anrhydedd Cymru, Lerpwl, Bryste. Priododd Maude Evelyn Barfoot 1918 a bu iddynt un mab. Bu farw yn Reading 13 Ebrill 1948.

Awdur

Dr Brynley Francis Roberts

Ffynonellau

Who was who?

Oxford Dictionary of National Biography

D. Emrys Evans, *The History of the University of Wales* (1953)

Delweddau

ArtUK: [Sir Thomas Franklin Sibly \(1883-1948\)](#)

National Portrait Gallery (London): [Sir \(Thomas\) Franklin Sibly](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [56143238](#)

Wikidata: [Q5491823](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Yfrannu

Arddull APA

x

Roberts, B. F., (1997). SIBLY, Syr THOMAS FRANKLIN (1883 - 1948), daearegwr, gweinyddwr prifysgol. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c5-SIBL-FRA-1883>

Cyfeirnod

Preifatrwydd a Chwciis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Modeld gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government